# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Mai 2024

Amser: 09.05 - 11.16

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13886

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Buffy Williams AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Gareth Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Tom Giffard AS<br>Jack Sargeant AS |
| Tystion: | Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg<br>Lloyd Hopkin, Llywodraeth Cymru<br>Hannah Wharf, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Diolchodd y Cadeirydd i Jayne Bryant AS, a oedd wedi cadeirio'r Pwyllgor ers 2021, a dymunodd y gorau iddi yn ei rôl newydd fel y Gweinidog Iechyd Meddwl a'r Blynyddoedd Cynnar.

1.3 Diolchodd y Cadeirydd hefyd i James Evans AS, Ken Skates AS a Laura Jones AS am eu cyfraniad fel aelodau o'r Pwyllgor. Croesawodd y Cadeirydd Aelodau newydd y Pwyllgor, sef Hefin David AS, Gareth Davies AS, Tom Gifford AS a Jack Sargeant AS, gan nodi ei bod yn edrych ymlaen at weithio gyda phob un ohonynt.

1.4 Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 6 ac eitem 8 ar agenda'r cyfarfod hwn, ac o'r cyfarfodydd cyfan ar 15 Mai ac 23 Mai

2.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 3 Gweithredu diwygiadau addysg - diweddariad ar weithgareddau ymgysylltu â theuluoedd

3.1 Cafodd yr Aelodau ddiweddariad llafar ar y gweithgareddau ymgysylltu sydd wedi'i cynnal ar gyfer y trydydd sesiwn gysylltu.

## 4 Gweithredu diwygiadau addysg - sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

4.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu manylion i'r Pwyllgor ynghylch y cyllid sydd wedi'i wario hyd yn hyn ar weithredu'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd, a'r swm o gyllid sydd wedi'i ddyrannu yn y gyllideb ar gyfer 2024-25.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet, gan ofyn y cwestiynau na chawsant eu gofyn yn ystod y cyfarfod.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 6 Gweithredu diwygiadau addysg – trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd yn ystod y sesiwn flaenorol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog er mwyn gofyn cwestiynau dilynol ynghylch rhai materion a godwyd yn ystod y sesiwn, a chytunodd i gyhoeddi adroddiad interim.

## 7 Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion [Eitem wedi'i gohirio i'w thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol]

## 8 Adolygu rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru a chyflwyno trefniadau i wella ysgolion – trafod aildrefnu'r eitem

8.1 Cytunodd yr Aelodau i drafod y broses o aildrefnu'r eitem hon, yn dilyn datganiad yr Ysgrifennydd Cabinet yr wythnos nesaf ar gyflawni blaenoriaethau addysg Cymru.